

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 55/2019  
DYDDIAD CYHOEDDI: 17/12/2019

# Arolwg Cenedlaethol Cymru: profi gwybyddol o gwestiynau 2020-21

---

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Rhagymadrodd a methodoleg

- 1.1 Mae'r holiadur [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn cael ei adolygu ar gyfer dechrau pob blwyddyn gwaith maes (Ebrill-Mawrth). Fel rhan o waith datblygu'r holiadur 2020-21, cafodd nifer arwyddocaol o newidiadau eu cynnig. Anelodd y prosiect adolygu a phrofi cwestiynau hwn at archwilio'r newidiadau hyn i sicrhau bod ymatebwyr yn deall cysyniadau neu dasgau cwestiynau yn y ffordd mae ymchwilwyr yn bwriadu, eu bod yn eu deall mewn dull cyson, ac yn fodlon ac yn abl i ddarparu atebion. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod canlyniadau'r arolwg yn ddibynadwy, dilyn a diduedd.
- 1.2 Mae'r grynodeb hon yn rhoi arolwg o'r prif ganfyddiadau, gan gymryd pob adran holiadur yn ei thro.
- 1.3 Aeth yr holl gwestiynau yn gyntaf trwy adolygiad desg trwyadl, a gwblhawyd gan ddefnyddio Kantar's Fframwaith Mesur Holiadur (QAF). Arweiniodd canfyddiadau o'r adolygiad desg at addasu'r cwestiynau drafft a ffurfiodd y cam nesaf, profi gwybyddol o'r rhan fwyaf o'r cwestiynau.
- 1.4 Gwahoddwyd ymatebwyr i gymryd rhan mewn cyfweiliad gwybyddol 45 munud wyneb i wyneb a rhoddwyd tocyn anrheg £30 i ddiolch iddynt am gymryd rhan. Cafodd cyfweiliadau eu cynnal mewn lleoliadau canolog yng Nghaerdydd a Dinbych. Cafodd cyfanswm o 19 cyfweiliad eu cynnal ar draws y ddwy rownd o brofi.
- 1.5 Ni chredwyd bod rhai cwestiynau yn arbennig o broblematig yn y cam adolygiad desg ac ni chawsant eu cynnwys yn y cam profi gwybyddol. Mae cwestiynau eraill yn cael eu gofyn ar hyn o bryd ar arolygon Teyrnas Unedig ac Ewropeaidd eraill ac roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i gadw'r geiriad presennol i sicrhau cysondeb. Cafodd cwestiynau oedd yn flaenoriaeth i'w cynnwys eu cytuno gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r tabl isod yn dangos adrannau'r holiadur a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad hwn a'r rowndiau o brofi gwybyddol roedden nhw'n rhan ohonynt.

Tabl 1: Adrannau holiadur a chamau adolygu


Adran holiadur	Nifer o gwestiynau	Adolygiad desg (QAF)	Rownd 1 profi gwybyddol	Rownd 2 profi gwybyddol
Apwyntiadau deintyddol	16.	✓	✓	✓
Gamblo	11.	✓	✓	✓
Argyfwng hinsawdd/Newidiadau ymddygiad	21.	✓	✓	✓
Dinasyddiaeth Fyd Eang	4.	✓	✓	✓
Diogelwch plant ar-lein	6.	✓	✓	✓
Lluoedd arfog	2.	✓	✓	✓
Tipio anghyfreithlon, sbwriel, baw cŵn, graffiti	4.	✓	✓	✗
Pam y cymerwyd rhan yn yr arolwg	2.	✓	✗	✓
Credyd Cynhwysol	2.	✓	✗	✗
Lleoliad diweddaraf ymweliad â'r awyr agored	5.	✓	✗	✗
Anabledd	1.	✓	✗	✗
Gwasanaethau gofal cymdeithasol	1.	✓	✗	✗
Bod yn agored i fwg baco	1.	✓	✗	✗

## 2. Prif ganfyddiadau

### Cwestiynau apwyntiad deintyddol

2.1 Cafodd y cwestiynau apwyntiad deintyddol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru eu rhannu yn dri phrif faes a ddangosir yn y ffigur isod:

Ffigur 1: Cwestiynau apwyntiad deintyddol: strwythur



- 2.2 Roedd rhai prif heriau ynghlwm ag ailgynllunio'r cwestiynau hyn a chawsant ei hailgynllunio'n helaeth yn y cam adolygiad desg. Cafodd y cwestiynau diwygiedig dderbyniad da yn ystod profi gwybyddol, gan ofyn am addasu bach dilynol yn unig. Dangosir y prif heriau isod ynghyd â'n hargymhellion ar gyfer sut i'w hateb.

**Tabl 2: Cwestiynau apwyntiad deintyddol: heriau a datrysiadau**

Mater a nodwyd	Argymhellion
<b>Deintyddion yn erbyn deintyddfeydd:</b> Teimlai holi am 'ddeintyddion' yn rhy syml gan fod deintyddfeydd yn cynnig ystod o driniaethau GIG, nid pob un ohonynt yn cael eu cynnig gan ddeintydd (e.e. glanweithydd neu orthodeintydd).	Gofynnwch yn fwy cyffredinol am ddeintyddfeydd i gael gwybodaeth gywirach a lleihau dryswch ynglŷn â beth ddylai gael ei gynnwys. Gweithiodd hyn yn dda yn ystod profi gwybyddol.
<b>Deintyddion GIG a phreifat:</b> Nid yw'r gwahaniaeth rhwng triniaeth ddeintyddol GIG a phreifat yn eglur. Mae rhai pobl yn cael triniaeth ddeintyddol GIG am ddim ac eraill yn talu cyfraniad. Mae rhai deintyddfeydd yn cynnig y ddau fath o driniaeth.	Gan fod y gwahaniaethau hyn yn bwysig, gofynnion ni yn gyntaf am unrhyw driniaeth ddeintyddol a phenderfynu wedyn ai GIG neu breifat oedd hyn. Eto, gweithiodd hyn yn dda pan gafodd ei brofi.
<b>'Cofrestredig':</b> Mae'n bosibl i fod yn gofrestredig gyda mwy nac un deintydd ac mae 'cofrestrriad' yn debygol o fod yn gysyniad amwys gan nad oes gofyn i gleifion 'gael eu cofrestru' mwyach gyda deintydd.	Cafodd y pwyslais ei roi ar ddeintyddfa 'arferol' yn hytrach na bod yn 'gofrestredig' gydag un. Cafodd hyn ei ddeall yn dda yn ystod profi gwybyddol.
<b>Triniaeth bersonol yn unig:</b> Roedd angen i'r cwestiynau fod yn eglurach wrth gyfeirio at driniaeth bersonol yn unig.	Manylodd y cwestiynau diwygiedig yn amlwg eu bod yn holi am driniaeth ar eich rhan chi, ac nid unrhyw aelodau eraill o'r teulu. Ni chafodd problemau eu darganfod yn ystod profi gwybyddol.

## Cwestiynau gamblo

- 2.3 Bydd y cwestiynau gamblo yn rhan o adran Hunangyfsweld gyda Chymorth Cyfrifiadur (CASI) yr arolwg. Argymhellir bod y dull hwn yn cael ei gadw gan fod gamblo yn bwnc sensitif ac fel y cyfryw mae perygl o duedd dymunoldeb cymdeithasol. Cafodd y cwestiynau hyn eu profi'n wybyddol gan ddefnyddio holiadur papur cwblhau eich hunan tra yn yr arolwg gwirioneddol, byddent yn cael eu gofyn trwy liniadur (CASI).
- 2.4 Mae'r adran gamblo yn cynnwys brawddeg gyflwyniadol ac un cwestiwn ar ddeg. Gofynnir i ymatebwyr yn gyntaf ddewis pa weithgareddau perthynol i gamblo maen nhw wedi gwario arian arnynt yn y 12 mis diwethaf, ac yn ail gofynnir iddynt pa mor aml maen nhw'n gwario arian ar y gweithgareddau a ddewisir. Mae'r cwestiynau sy'n weddill yn gofyn am amrywiaeth o ymddygiadau gamblo ac a yw pobl yn betio mwy o arian nac y gallant fforddio i'w golli.
- 2.5 Aeth y cwestiynau hyn trwy adolygiad desg trwyadl. Fodd bynnag, roedd llywodraeth Cymru yn awyddus i osgoi gwneud newidiadau ar gyfer 2020-21 oni bai fod problemau arwyddocaol wedi cael eu datgelu yn ystod profi er mwyn cynnal cymharedd ag arolygon eraill y DU sy'n cynnwys y set hon o gwestiynau (er enghraifft Arolwg Iechyd Lloegr). Tra bod argymhellion ar gyfer gwelliannau wedi cael eu gwneud yn y cam adolygiad desg cafodd yr adran ei phrofi'n wybyddol gan ddefnyddio'r geiriad gwreiddiol.
- 2.6 Yn gyffredinol, gweithiodd y cwestiynau'n dda yn y profi ac argymhellwyd bod y geiriad gwreiddiol yn cael ei gadw gyda dau welliant yn unig. Cafodd y cwestiwn cyntaf ei rannu'n ddau gan ei fod yn cynnwys rhestr hir o weithgareddau gamblo a allai fod yn feichus i ymatebwyr mewn un. Cafodd yr ail gwestiwn, a ofynnodd pa mor aml y gwariodd ymatebwyr arian ar y gweithgareddau hyn, ei

ddiwygio i gynnwys rhestr o ymddygiadau gamblo a ddetholwyd i atgoffa'r ymatebwr. Gweithiodd y ddau newid hyn yn dda mewn profion.

## Cwestiynau argyfwng hinsawdd/newidiadau ymddygiad

- 2.7 Mae'r cwestiynau yn yr adran hon wedi eu rhannu i ddau brif faes: 1) set o chwe chwestiwn sy'n cwmpasu safbwyntiau ymatebwyr am newid hinsawdd a 2) un chwestiwn am ymddygiadau amgylcheddol penodol a chwe chwestiwn dilynol yn gofyn am y rhesymau y tu ôl i'r ymddygiadau.
- 2.8 Aeth y **cwestiynau newid hinsawdd** trwy ychydig o welliant yn y cam adolygu desg a datgelwyd ychydig o broblemau yn ystod profi gwybyddol. Mân ddiwygiadau i eiriad i wella eglurder a dileu'r potensial am duedd oedd yr unig newidiadau a argymhellwyd.
- 2.9 Cyflwynodd y **cwestiynau ymddygiad amgylcheddol** ystod o faterion, fel y dangosir yn y tabl isod:

**Tabl 3: Cwestiynau ymddygiad amgylcheddol: heriau a datrysiadau**

Mater a nodwyd	Argymhellion
<p><b>Lleoliad y cwestiynau:</b> Gan fod cwestiynau ymddygiad amgylcheddol wedi cael eu gofyn ar ôl y modiwl argyfwng hinsawdd, gallai hyn arwain at duedd dymunoldeb cymdeithasol lle gallai ymatebwyr oradrodd ymddygiadau 'amgylcheddol gyfeillgar' a chyfyngu meddwl i newid hinsawdd.</p>	<p>Ail-leoli cwestiynau i eistedd yn gynharach yn yr holiadur. Canfuwyd bod hyn yn gweithio'n well mewn profi gwybyddol.</p>
<p><b>Cwestiynau cod unigol:</b> Yn ystod prosiect profi gwybyddol blaenorol, canfuwyd mai prif yrrwr ymddygiadau fel torri i lawr ar neu osgoi teithio mewn car oedd rheswm ffordd o fyw. Fodd bynnag, pan roddwyd y cyfle i ddewis opsiynau lluosog, tueddai ymatebwyr i ddewis rhesymau amgylcheddol fel gyrrwr eilaidd oherwydd effaith dymunoldeb cymdeithasol. Wrth holi'n fanwl, yn ystod yr ymchwil blaenorol hwnnw, canfuwyd nad oedd y rhesymau amgylcheddol yn rhesymau 'gwirioneddol'.</p>	<p>Gofynnwch am un prif reswm unigol am yr ymddygiad i greu canlyniadau mwy ystyrlon.</p>
<p><b>Y defnydd o gardiau hysbysebu/sgriniau hysbysebu:</b> Er mwyn lleihau tuedd dymunoldeb cymdeithasol, cafodd y cwestiynau ar ymddygiadau amgylcheddol penodol eu gofyn yn wreiddiol heb gymhelliad (hynny yw, codiodd y cyfwelydd ymatebion gair am air i restr dewisiadau wedi ei rhagbennu). Teimlwyd bod hyn yn gofyn am swm arwyddocaol o ddehongliad cyfwelydd ynghylch beth ddylai gyfrif fel 'cyfyngu effeithiau newid hinsawdd'.</p>	<p>Dangosodd profi gwybyddol bod y cwestiynau hyn yn gweithio'n well pan roddwyd rhestr o opsiynau i ymatebwyr ddewis ohonynt. Argymhellwn fod y rhain yn cael eu harddangos ar sgrîn ddangos ac yn cael eu cymysgu ar hap i osgoi effaith goruchafiaeth (lle mae ymatebwyr yn dangos tuedd at ddewis yr opsiwn cyntaf ar y rhestr).</p>

## Cwestiynau dinasyddiaeth fyd eang

- 2.10 Mae'r adran hon yn cynnwys pedwar chwestiwn sy'n holi am ffyrdd mae ymatebwyr wedi cefnogi materion rhyngwladol byd eang yn y 12 mis diwethaf. Y materion hyn, wedi'u cyflwyno ar gerdyn hysbysebu yw: tlodi, hawliau dynol, rhyfel/gwrthdaro, ffoaduriaid a newid amgylchedd/hinsawdd. Y ffyrdd y gallai ymatebwyr fod wedi cefnogi'r materion hyn yw: cyfrannu neu godi arian, gwirfoddoli, ymgychu, ac osgoi neu brynu gwasanaethau neu gynhyrchion penodol.

- 2.11 Profodd y cwestiynau hyn yn heriol i'w datblygu ac aethant trwy adolygu helaeth trwy gydol yr adolygiad a phroses brofi. Y prif faterion oedd:
- Amrywiodd dehongliadau ymatebwyr o dermau allweddol yn eang; roedd 'Materion byd eang', 'hawliau dynol', rhyfel/gwrthdaro', a 'ffoaduriaid yn a'r tu allan i Gymru/DU' yn arbennig o broblematig.
  - Ymatebwyr yn anwybyddu'r cerdyn hysbysebu neu ddim yn cofio'r holl eitemau mewn cwestiynau dilynol o angenrheidrwydd.
  - Yn ystod profi, cynhwysodd ymatebwyr faterion heb fod yn rhyngwladol (e.e. meddwl am roi arian i berson digartref) neu roeddent yn ansicr a oedd rhywbeth yn rhyngwladol (e.e cyfrannu at Cancer Research UK). Roedd y broblem i'r gwrthwyneb hefyd yn bresennol yn yr ystyr yn ystod holi'n fanwl yr ymddangosai fod gweithgareddau perthnasol wedi digwydd ond heb gael eu cynnwys (e.e. cyfrannu at siopau elusennau).
  - Mae cefnogi'r mathau hyn o achosion yn ymddygiad cymdeithasol dymunol ac felly gallai ymatebwyr fod yn awyddus i gynnwys ymddygiadau sydd ddim yn ffitio'n hollol yma neu'n syrthio y tu allan i'r cyfnod cyfeirio.
- 2.12 Cafodd dau brif argymhelliad eu gwneud wrth ateb y materion hyn:
- Cynnwys **rhestr lawnach o enghreifftiau** ym mhob cwestiwn i helpu dealltwriaeth ymatebwyr o'r mathau o bethau a ddylai gael eu cynnwys ym mhob cwestiwn.
  - Ychwanegu **rhagymadrodd ar wahân** i annog ymatebwyr i ddarllen trwy'r materion yn gyntaf ar y cerdyn hysbysebu cyn mynd i'r afael â'r pedwar cwestiwn unigol. Dylai cyflwyno'r materion mewn rhagymadrodd dechreuol helpu ymatebwyr i ganolbwyntio mwy ar gwmpas y cwestiynau a helpu i leihau gorrwytho gwybyddol.

### Cwestiynau diogelwch plant ar-lein

- 2.13 Cafodd set o gwestiynau i ymatebwyr ynglŷn â diogelwch eu plentyn ar-lein ei gynnwys yn yr adolygiad desg a phrofi gwybyddol. Mae un plentyn 5-15 oed yn cael ei ddewis ar hap o fewn y cartref ac wedyn mae cwestiynau yn cael eu gofyn am ddefnydd rhynggrwyd yn y cartref ac yn yr ysgol, gweithgareddau yr ymgymherir â hwy ar-lein a diogelwch rhynggrwyd.
- 2.14 Roedd y rhan fwyaf o'r gwelliannau a awgrymwyd yn newidiadau cymharol fach i eiriad cwestiwn. Mae'r tabl isod yn dangos y tri phrif fater a gododd a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy.

**Tabl 4: Cwestiynau diogelwch plant ar-lein: heriau a datrysiadau**

Mater a nodwyd	Argymhellion
<b>Lle mae'r rhynggrwyd yn cael ei defnyddio:</b> nid oedd y cwmpas ble roedd y plentyn wedi defnyddio'r rhynggrwyd yn glir (e.e. a ddylid cynnwys defnydd rhynggrwyd gartref, yn yr ysgol ac yn y blaen).	Cafodd brawddeg ei hychwanegu i egluro y dylai rhieni feddwl am unrhyw le mae eu plentyn wedi defnyddio'r rhynggrwyd ('gartref, yn yr ysgol neu unrhyw le arall').
<b>Gall rhieni fod yn anymwybodol o weithgareddau eu plant yn yr ysgol:</b> amlygodd yr adolygiad desg a phrofi gwybyddol nad yw rhieni o bosibl yn gwybod pa weithgareddau mae eu plant yn eu gwneud ar-lein yn yr ysgol neu a yw eu hatharawon yn siarad gyda hwy am ddiogelwch rhynggrwyd.	Cafodd y geiriad 'mor bell ag yr ydych yn ymwybodol' ei ychwanegu at eiriad y cwestiwn.
<b>Diffyg ymwybyddiaeth o 'Hwb':</b> Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi clywed am 'Hwb'	Cafodd y cwestiwn ei rannu'n ddwy ran, yr ail yn holi am 'Hwb' yn fwy penodol.

## Cwestiynau lluoedd arfog

- 2.15 Cafodd dau gwestiwn ar luoedd arfog eu cynnwys yn yr adolygiad desg a phrofi gwybyddol. Mae'r cwestiynau yn gofyn a yw unrhyw aelodau o'r teulu agos yn neu wedi bod yn y lluoedd arfog; ac a yw'r ymatebwr ei hun wedi gwasanaethu **o'r blaen**. Cafodd argymhellion eu gwneud i egluro'r canlynol:
- **Lluoedd arfog y DU:** cyfeiriwch at luoedd arfog y **DU** a manylwch ar yr union gyrff a ddylai gael eu cynnwys/heithrio o dan y disgrifiad hwn.
  - **Teulu agos:** cyfeiriwch yn benodol at 'eich teulu agos' i ddarparu cyd-destun ar unwaith. Cafodd ei argymhell hefyd bod y categori 'mab neu ferch' yn cyfeirio at 'blentyn' fel dewis rhyw niwtral. Cafodd y cwestiwn hefyd ei ddiwygio i egluro y dylai sibliogiaid, cyn-bartneriaid, llys-blant 18 oed neu iau, ac aelodau teulu a fu farw gael eu cynnwys.
  - **Y rheiny sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd:** roedd y cwestiwn gwreiddiol yn cynnwys cyfarwyddyd cyfwelydd manwl ynglŷn â pham roedd y cwestiwn yn gofyn am wasanaethu'n flaenorol yn unig (nid ar hyn o bryd). Argymhellwyd y dylid torri'r manylyn allan ac ychwanegu yn hytrach 'Nid oes angen i ni wybod os ydych chi'n gwasanaethu ar hyn o bryd'.

## Cwestiynau tipio anghyfreithlon, sbwriel, baw cŵn, graffiti

- 2.16 Mae'r adran hon yn cynnwys pedwar cwestiwn, un i bob un o'r materion sy'n cael eu rhestru uchod, sy'n anelu at fesur safbwyntiau ymatebwyr ar y graddau mae pob un yn broblem yn eu hardal leol. Mae'r cwestiynau yn defnyddio graddfa gytuno/anghytuno pum pwynt gyda phwynt canol. Cafodd yr argymhellion canlynol eu gwneud:
- **Canolbwyntiwrch ar 'broblemau' yn hytrach na chytuno/anghytuno:** adeiladwch y cwestiynau o gwmpas 'broblemau' gan mai hyn yw'r geiriad penodol sy'n cael ei ddefnyddio o fewn yr adran hon o gwestiynau yn hytrach na defnyddio graddfa cytuno/anghytuno (hynny yw, 'faint o broblem yw pob un o'r rhain yn eich ardal leol?'). Cafodd y raddfa ateb hefyd ei diwygio i gyfeirio at 'broblemau' (problem fawr, problem ganolig, dim yn broblem o gwbl).
  - **Ardal leol:** ychwanegwch y diffiniad o 'ardal leol' sy'n cael ei ddefnyddio eisoes mewn manau eraill yn yr holiadur ('Wrth ateb, ystyriwch eich ardal leol i fod yr ardal o fewn 15-20 munud o bellter cerdded o'ch cartref').

## Pam y cymerwyd rhan yng nghwestiwn yr holiadur

- 2.17 Roedd y gwaith adolygu a phrofi yn cynnwys un cwestiwn hunangwblhau sy'n anelu at gael y rhesymau pam y cymerodd yr ymatebwr ran yn yr arolwg o restr o 15 rheswm. Roedd yr argymhellion yn cynnwys: gwneud yr isafswm o welliannau i eiriad y cwestiwn a dewisiadau ymateb, gan egluro bod hwn yn gwestiwn amlgod a dileu'r is-benawdau gan y credai rhai ymatebwyr fod angen iddynt ddewis un rheswm o bob adran.

## Cwestiynau Credyd Cynhwysol

- 2.18 Cafodd dau gwestiwn am Gredyd Cynhwysol eu cynnwys yn yr adolygiad a phrofi. Mae'r ddau yn gwestiynau dilynol, yn cael eu gofyn os yw ymatebwyr yn adrodd am dderbyn unrhyw Gredyd Cynhwysol yn y 3 mis diwethaf. Mae'r ddau gwestiwn yn ceisio darganfod pa mor aml mae ymatebwyr yn derbyn eu taliadau Credyd Cynhwysol; ac os ydynt yn eu derbyn unwaith y mis neu'n llai aml, a ydynt yn ymwybodol o'r dewis i'w derbyn yn amlach, naill ai'n wythnosol neu bob pythefnos. Yr unig argymhelliad a gafodd ei wneud oedd byrhau'r ail gwestiwn i'w wneud yn llai geiriol.

## Cwestiynau am leoliad yr ymweliad diweddaraf â'r awyr agored

- 2.19 Cafodd pedwar cwestiwn eu cynnwys yn yr adolygiad sy'n rhan o floc o gwestiynau ynglŷn â gweithgareddau hamdden awyr agored. Mae'r cwestiynau yn cael eu gofyn i bobl sydd wedi ymgymryd â'r mathau hyn o weithgareddau (e.e. cerdded, seiclo, marchogaeth, pysgota, ymweld ag ardaloedd chwarae plant ac yn y blaen) o leiaf unwaith yn y pedair wythnos diwethaf. Mae'r pedwar cwestiwn sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad yn eithaf heriol gan eu bod yn anelu at nodi'r union leoliadau lle digwyddodd y rhain. Mae'r meddalwedd sgriptio a ddefnyddir i weinyddu'r arolwg yn cynnwys nodiadau atgoffa i adnabod yr union enwau lleoedd ac yn ddelfrydol byddai'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yn godau post neu godau OS penodol.
- 2.20 Aeth y cwestiynau hyn trwy adolygiad desg ond ni chawsant eu cynnwys yn y profi gwybyddol am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae **cwestiynau cyd-destunol eithaf hir** mae'r rhain yn deillio ohonynt a byddai'n ychwanegu amser arwyddocaol at y cyfweiliadau gwybyddol. Yn ail, mae'r cwestiynau yn defnyddio **swyddogaeth wirio gyda'r meddalwedd sgriptio**. Gan ein bod yn cynnal ein profi ar bapur, teimlwyd nad hyn oedd y dull gorau i brofi'r cwestiynau hyn arno.
- 2.21 Y prif argymhellion oedd: i **ganolbwyntio neu egluro** beth mae'r cwestiynau yn gofyn trwy gyfarwyddiadau cyfwelydd a geiriad cwestiynau gwell; **byrhau/torri testun i lawr** lle'n bosibl; sicrhau **cysondeb** ar draws y cwestiynau; ac i ychwanegu **deunyddiau testun** sy'n bwydo'r math o le yr ymwelodd yr ymatebwr ag ef ymlaen fel y manylwyd yn y cwestiwn blaenorol.

## Cwestiwn anabledd

- 2.22 Roedd yr adolygiad yn cynnwys cwestiwn yn gofyn a yw'r ymatebwr yn ystyried bod ganddo anabledd. Ni chafodd y cwestiwn hwn ei gynnwys yn y cam profi gwybyddol oherwydd diffyg amser/gofod ond cafodd ei fesur yng nghanam yr adolygiad desg. Cafodd y geiriad gwreiddiol ei gadw.

## Cwestiwn gwasanaethau gofal cymdeithasol

- 2.23 Cafodd un cwestiwn ar wasanaethau gofal cymdeithasol ei gynnwys yn yr adolygiad desg a phrofi gwybyddol. Mae'n rhan o set o gwestiynau cytuno/anghytuno sy'n cael eu gofyn i ymatebwyr sydd wedi derbyn help gan wasanaethau gofal a chymorth. Mae'r cwestiwn yn mesur y graddau mae'r ymatebwr yn teimlo ei fod wedi cael ei drin gydag urddas a pharch gan y gwasanaethau gofal a chymorth mae ef/hi (neu'r sawl mae'n gofalu amdano) wedi derbyn dros y 12 mis diwethaf. Tra na chafodd unrhyw newidiadau eu hargymell, cafodd dau fater eu codi ynglŷn â dealltwriaeth a sefyllfa ymatebwyr:
- Mae'r cwestiwn yn cyfuno'r cysyniadau o urddas a pharch a gallai fod yn wir fod pobl yn meddwl am y rhain yn wahanol a byddent yn rhoi atebion gwahanol i'r ddau.
  - Gallai fod enghreifftiau lle mae'r ymatebwr wedi defnyddio gwasanaethau cymorth gwahanol neu wedi cael cysylltiad gydag unigolion gwahanol a gallai fod wedi cael ystod o brofiadau gwahanol. Yn yr achosion hynny, gallai fod yn anodd iddynt wybod beth i seilio'r ateb arno.

## Cwestiwn bod yn agored i fwg baco

- 2.24 Cafodd un cwestiwn ar fod yn agored i fwg baco ei gynnwys yn yr adolygiad hwn. Mae wedi'i gynllunio i ddarganfod y **lleoliadau** mae ymatebwyr yn agored ynddynt yn **rheolaidd** i fwg baco pobl eraill. Cododd yr adolygiad nifer o faterion ynglŷn â sut y gallai cysyniadau o fewn y cwestiwn gael eu dehongli, ffyrdd y gallai gael ei egluro ac awgrymodd ychwanegu cwestiwn dilynol i fesur pa mor **rheolaidd** mae ymatebwyr yn agored i fwg baco.

Mae'r adroddiad llawn ar gael yn awr – anfonwch gais at [arolygon@llyw.cymru](mailto:arolygon@llyw.cymru)



**Alice McGee, Katie Smith and Tim Hanson**  
**Kantar Public**

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilyr ac nid o reidwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Chris McGowan  
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth  
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi  
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: [chris.mcgowan@llyw.cymru](mailto:chris.mcgowan@llyw.cymru)

Mae'r adroddiad profi gwybyddol llawn ar gael ar unwaith wrth e-bostio [arolygon@llyw.cymru](mailto:arolygon@llyw.cymru)

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-83933-621-8